# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-12-08 (p1): 4 Mehefin 2008**

Papur ar Gyfer Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 4 Mehefin 2008 Paratowyd gan: Jane Davidson AC,Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Mai 2008

## Tlodi Tanwydd Yng Nghymru

1. Mae cyfiawnder cymdeithasol yn agwedd allweddol ar agenda Llywodraeth y Cynulliad, a bydd ein dull newydd parthed datblygu cynaliadwy yn rhoi pobl a chymunedau yn y canol. Bydd mynd i'r afael â thlodi tanwydd a galluogi pobl yng Nghymru i wresogi eu cartrefi yn fforddiadwy – ac yn gynaliadwy – yn her allweddol yn hynny o beth.

### Y sefyllfa o ran tlodi tanwydd yng Nghymru

2. Y diffiniad cyffredinol o dlodi tanwydd yw lle y bydd angen i gartref wario dros 10% o'i incwm ar ei holl ddefnydd o danwydd er mwyn cynnal arfer gwresogi digonol.

3. Nododd Arolwg Byw yng Nghymru 2004 fod 134,000 o gartrefi yng Nghymru mewn tlodi tanwydd. Wrth addasu data 2004, gan ystyried y cynnydd ym mhrisiau tanwydd, amcangyfrifir bod y ffigur hwn wedi cynyddu i 166,000 o gartrefi yn 2005 a 240,000 yn 2006. Rydym wedi cyhoeddi'r dangosydd tlodi tanwydd a fydd yn ein helpu i werthuso effaith unrhyw gynnydd pellach mewn prisiau.

4. Rydym hefyd wedi comisiynu gwaith oddi wrth y Ganolfan Ynni Cynaliadwy ar ddata ynghylch ardaloedd bychan; disgwylir yr adroddiad yr haf hwn.

5. Yn 2004, roedd gan Gymru yr ail gyfran isaf o gartrefi mewn tlodi tanwydd yn y DU, sef 11%. Roedd y gyfran isaf yn Lloegr, sef 6%. Y ffigurau ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon oedd 14.5% a 24%.

6. Mae cyfuniad o incwm is a chostau tanwydd uwch wedi arwain at gynnydd yn nifer y cartrefi yng Nghymru mewn tlodi tanwydd, o'i gymharu â Lloegr. Mae'r costau tanwydd uwch yn deillio'n rhannol o effeithlonrwydd ynni gwaeth hen stoc dai Cymru, a hefyd o'r pris uwch a delir am uned o drydan yng Nghymru.

7. Rydym yn cydweithio â Golwg ar Ynni ac Ofgem er mwyn ceisio dod i wybod pam y mae cwsmeriaid yng Nghymru yn talu cost uwch am uned o drydan. Mae Golwg ar Ynni wedi comisiynu ymchwil ar brisiau yng Nghymru a bydd ffrwyth y gwaith hwn yn cyfrannu at archwiliad Ofgem o'r marchnadoedd ynni, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

8. Hyd nes y dechreuodd prisiau tanwydd godi, roedd cryn waith yn cael ei gyflawni er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru, ac yn arbennig yn y sector tai cymdeithasol. Serch hynny, cydnabuwyd fod heriau penodol yn y sector tai a feddiannir gan berchnogion a'r sector tai rhent preifat ac mewn cartrefi y mae'n anodd eu gwresogi (yn bennaf cartrefi mewn lleoliadau mwy anghysbell heb unrhyw gyswllt â'r prif gyflenwad nwy). Mae'r cynnydd ym mhris olew gwresogi domestig yn dwysáu'r anawsterau y mae cartrefi nad oes ganddynt gyswllt â'r prif gyflenwad nwy yn eu hwynebu.

### Mynd i'r afael â thlodi tanwydd

9. Amlinellir ymrwymiadau presennol Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â thlodi tanwydd yn 'Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000: Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru'. Yn y bôn adlewyrcha ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i darged yr 'UK Fuel Poverty Strategy' o waredu tlodi tanwydd, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, mewn cartrefi agored i niwed erbyn 2010. (Diffinnir 'cartrefi agored i niwed' fel cartrefi lle ceir yr henoed, plant, a chaiff pobl ag anabledd neu salwch hirdymor eu hystyried fel rhai agored i niwed yn y cyd-destun hwn.) Mae hefyd yn anelu at waredu tlodi tanwydd mewn cartrefi cymdeithasol erbyn 2012, ac at sicrhau na ddylai unrhyw gartref yng Nghymru fyw mewn tlodi tanwydd y tu hwnt i 2018.

Mae tri phrif ffactor yn dylanwadu ar dlodi tanwydd:

Cost tanwydd

Incwm cartrefi

Perfformiad y cartref o safbwynt ynni

Mae tri phrif gam yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd:

Newidiadau mewn tariffau neu dariffau is ar gyfer grwpiau agored i niwed

Sicrhau cymaint â phosibl o incwm, gan gynnwys y budd-daliadau y mae gan bobl hawl iddynt

Gwella perfformiad y cartref o safbwynt ynni

12. Materion i Lywodraeth y DU yw'r ddau gyntaf i raddau helaeth, er bydd camau pellach gan Lywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â

thlodi yn helpu i wella amgylchiadau economaidd unigolion. Fodd bynnag, Llywodraeth y Cynulliad sydd yn y sefyllfa orau i weithredu mewn perthynas â pherfformiad cartrefi o safbwynt ynni.

13. Bues i'n bresennol mewn Uwchgynhadledd ar Dlodi Tanwydd yn y DU ar 23 Ebrill. Trefnwyd yr uwchgynhadledd gan Ofgem, a daeth saith o Weinidogion y Llywodraeth, uwch gynrychiolydd o Gomisiwn yr UE, pedwar Prif Weithredwr a dau uwch gynrychiolydd o'r chwe phrif gwmni ynni, ynghyd â llawer o bobl o'r sector gwirfoddol sy'n ymwneud â maes tlodi tanwydd. Trafodwyd yn bennaf yr angen i gyflenwyr ei gwneud yn haws i gwsmeriaid newid cyflenwyr a thariffau cymdeithasol.

14. Mae rhaglen weithredu wrthi'n cael ei llunio er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid agored i niwed a chwsmeriaid mewn tlodi tanwydd yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

15. Yn sgil yr uwchgynhadledd rwy'n trefnu cyfarfodydd gyda chyflenwyr ynni yng Nghymru er mwyn pwyso a mesur pa gamau pellach y mae'n bosibl eu cymryd.

16. Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yw ein dull allweddol ar gyfer hyrwyddo buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni, gan geisio mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Cyflwynwyd y cynllun ym mis Tachwedd 2000 ac mae'n rhoi grantiau i gartrefi agored i niwed sy'n derbyn rhai budd-daliadau pasport cymwys neu sy'n 60 oed neu drosodd.

17. Mae'n ariannu ystod o fesurau inswleiddio a gwresogi. Mae dros 93,000 o gartrefi wedi elwa ar fesurau fel inswleiddio waliau ceudod, inswleiddio'r atig, pethau atal drafft, a systemau gwres canolog newydd drwy'r cynllun hyd at ddiwedd 2007/08. Mae'r gyllideb sydd ar gael wedi cynyddu o tua £7 miliwn yn 2001/2002 i bron i £20 miliwn yn 2008/09. O ystyried y ffaith bod sicrhau cymaint â phosibl o incwm ar gyfer cartrefi yn gam allweddol wrth geisio lleihau tlodi tanwydd, cynigir Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau i bob cartref sy'n cyflwyno cais i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref.

18. Mae nifer o bolisïau a rhaglenni eraill hefyd yn hyrwyddo camau gweithredu ynghylch tlodi tanwydd. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn pennu lefel gofynnol o ran perfformiad ynni mewn stoc ddomestig ac mae hefyd wedi helpu i sicrhau gwelliannau i stoc awdurdodau lleol a stoc Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

19. Mae ein grantiau tai yn cynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phobl eraill i gyflawni safonau hyd yn oed yn uwch o ran perfformiad ynni mewn datblygiadau newydd ac mewn cartrefi a adnewyddir.

20. Rydym hefyd yn rhoi arian i National Energy Action – Cymru i godi ymwybyddiaeth, darparu hyfforddiant a chynnig cymorth ynghylch tlodi tanwydd ac maent yn cydweithio'n agos iawn ag awdurdodau lleol ac yn helpu â pharatoi a hyrwyddo Cynlluniau Gweithredu ynghylch Gwres Fforddiadwy.

21. Mae ein camau gweithredu yn cyd-fynd â mentrau ar draws y DU ynghylch tariffau, budd-daliadau fel y Taliad Tanwydd Gaeaf a mesurau effeithlonrwydd ynni fel CERT (Targed Lleihau Allyriadau Carbon) y cyflenwyr ynni

Ar draws yr holl feysydd hyn rwy'n cydweithio'n agos â'm cymheiriaid yn Llywodraeth y Du er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau yng Nghymru mor effeithiol â phosibl.

## Y Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni a'r adolygiad o'r Strategaeth Tlodi Tanwydd a'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

23. O ystyried y tuedd o brisiau ynni cynyddol, a'n hymrwymiad i leihau allyriadau'r sector domestig, mae angen i ni edrych ar ein polisïau a'n rhaglenni yn y maes hwn.

24. Wrth gydnabod yr her a wynebwn, rwyf wedi mynd ati i sicrhau bod rhagor o gyngor ar gael i mi ynghylch tlodi tanwydd drwy wneud swydd Cadeirydd y Grwp Cynghori ar Dlodi Tanwydd yn benodiad cyhoeddus. Mae'r broses benodi yn mynd rhagddi ar hyn o bryd a bydd gan y Grwp Cynghori rôl allweddol o safbwynt ein hysbysu ynghylch y ffordd orau ymlaen.

25. Fel rhan o ymrwymiad 'Cymru'n Un' i Gynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni, caiff ein strategaeth Tlodi Tanwydd ei phwyso a'i mesur, ar y cyd â rôl y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref wrth leihau tlodi tanwydd yng Nghymru.

26. Fy nod wrth ddatblygu'r Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni yw sicrhau bod gennym y polisïau a'r rhaglenni er mwyn cyflawni ein dau amcan sef lleihau allyriadau nwyon ty gwydr a lleihau tlodi tanwydd.

27. Wrth ddatblygu'r Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni, byddwn yn adolygu'r ystod lawn o bolisïau a rhaglenni a all gyfrannu at wella effeithlonrwydd ynni. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys edrych ar rôl Safon Ansawdd Tai Cymru a sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd i hyrwyddo gwelliannau drwy ein rhaglenni adfywio, gan gynnwys rhaglen Blaenau'r Cymoedd a Chymunedau Nesaf.

28. Wrth archwilio'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn benodol, byddwn yn edrych ar faterion fel:

Pwy sy'n gymwys i fanteisio ar y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ac a yw parhau i ddefnyddio ffactorau fel budd-daliadau, oedran ac anabledd/salwch er mwyn mesur tlodi tanwydd yn effeithiol wrth gynorthwyo pobl mewn tlodi tanwydd

Sicrhau ein bod yn buddsoddi mewn technolegau a fydd yn helpu i leihau allyriadau ac sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor – bydd angen i ynni adnewyddadwy chwarae rhan fwy amlwg

Y mesurau effeithlonrwydd ynni a gynigir fel rhan o'r cynllun

Sicrhau bod y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref a’r Targed Lleihau Allyriadau Carbon yn ategu ei gilydd yn hytrach na mynd yn groes i’w gilydd

Yr heriau penodol y mae cartrefi anodd i’w gwresogi yn eu hwynebu

Manteision ac anfanteision gweithio ar lefel ardal

29. Rwy’n disgwyl cynnal ymarfer ymgynghori ynghylch y fersiwn drafft o’r Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni erbyn diwedd 2008 a bydd gan randdeiliaid, yn arbennig drwy’r Grwp Cynghori ar Dlodi Tanwydd a fforymau effeithlonrwydd ynni/gwres fforddiadwy awdurdodau lleol, rôl allweddol i’w chwarae.